O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 928 (Cy. 158)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Yr A494 (Rhwng Bethel a Glanyrafon, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*23 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*25 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhwng Bethel a Glanyrafon, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Gorffennaf 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 25 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "darn o'r gefnffordd" ("*length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw sy'n ymestyn o bwynt 580 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd sirol y B4402 ger Bethel hyd at bwynt 1890 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd sirol y B4402, sy'n gyfagos i'r gilfan orllewinol yng Nghoedwig Llwyn Braich Ddu, ger Glanyrafon;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth sy'n lletach na 3.5 metr, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar ymwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru